Astudiaethau achos gwrth-hiliol: Fatima: mynediad i iaith, diogelwch diwylliannol a risg glinigol

Last Updated: 23/11/2026

Fatima: mynediad i iaith, diogelwch diwylliannol a risg glinigol

Setting: Gofal mamolaeth: derbyniad cynenedigol ar 35 wythnos o feichiogrwydd.

Cyd-destun

Mae Fatima yn disgwyl ei hail fabi ac mae hi'n cael ei derbyn i'r ward drwy'r Adran Brysbennu ar 35 wythnos o feichiogrwydd gyda phoen yn ei abdomen. Ychydig o Saesneg y mae hi'n ei siarad. Mae ei gŵr yn siarad rhywfaint o Saesneg ond nid yw'n rhugl.

Beth ddigwyddodd

Dros y 24 awr nesaf, mae Fatima'n cael penodau dro ar ôl tro o boen ac mae'n mynd yn ofidus iawn. Mae cyfradd curiad calon y ffetws yn cael ei monitro gan ddefnyddio cardiotocograffeg (CTG) ddwywaith y dydd.

Nid oes unrhyw golled gwaed o'r fagina wedi'i dogfennu. Mae symudiadau'r ffetws yn cael eu cofnodi fel rhai sy'n bresennol, ond nid yw'r patrwm yn cael ei ddisgrifio. Mae Fatima yn treulio cyfnodau hir yn siglo ar ei gwely ac mae hi'n aml yn tasgu dŵr ar ei hwyneb. Ychydig y mae hi'n ei fwyta ond mae hi'n dangos ei bod hi eisiau cael ei bwydo ag ogwrt.

Cyfathrebir drwy ei gŵr pan yw'n bresennol yn ystod yr ymweliadau. Mae'r tîm obstetreg yn adolygu Fatima sawl gwaith, ond nid yw cofnodion yn dangos bod cyfieithydd ar y pryd yn cael ei ddefnyddio. Mae cofnodion bydwreigiaeth yn disgrifio ymddygiad Fatima ac yn dogfennu pryderon staff ynghylch dŵr yn cyrraedd pwyntiau trydanol.

Maent hefyd yn cofnodi bod staff wedi gwrthod ei bwydo. Nid oes unrhyw dystiolaeth bod cyfieithydd ar y pryd yn cael ei ddefnyddio i archwilio poen, gofid, dymuniadau, arfer crefyddol Fatima na dealltwriaeth o'i gofal.

Effaith

Mae poen Fatima yn parhau ac yna'n mynd yn ddifrifol ac yn gyson. Mae hi'n cael ei chludo i'r theatr, lle mae gwaedlif cyn-enedigol cudd mawr o 1750 ml yn cael ei ganfod.

Yn anffodus, roedd babi Fatima yn farw-anedig, ac roedd angen trallwysiad gwaed arni.

Roedd diffyg cyfathrebu effeithiol yn golygu na allai staff feithrin perthynas â Fatima, deall beth oedd yn digwydd iddi, darparu gofal personol, nac asesu ac ymateb yn llawn i'w phryderon.

Sut olwg ddylai fod ar arfer gwrth-hiliol

Mae mynediad at iaith yn ymyrraeth ddiogelwch. Dylid defnyddio cyfieithu ar y pryd yn rhagweithiol a'i ddogfennu'n glir. Ni ddylai dibynnu ar aelodau'r teulu ddisodli cyfieithu ar y pryd proffesiynol, yn enwedig ar gyfer asesu, caniatâd, poen, risg, dwysáu neu wneud penderfyniadau. Dylid mynd at arferion diwylliannol a chrefyddol gyda chwilfrydedd a pharch,

id rhagdybiaeth.

Pwyntiau dysgu allweddol

- Dylid defnyddio cyfieithwyr ar y pryd proffesiynol pan fydd gofal yn cael ei asesu, ei gynllunio, ei ddarparu neu ei newid
- Ni ddylid defnyddio perthnasau fel y prif lwybr ar gyfer cyfathrebu clinigol
- Gall methu â darparu cyfieithu ar y pryd greu gofal anniogel ac anghyfartal
- Dylid archwilio poen, gofid a chiwiau ymddygiadol, nid dim ond eu cofnodi fel ymddygiad
- Dylid cydnabod a deall arferion crefyddol fel rhan o ofal personol
- Dylai staff ddogfennu defnydd cyfieithydd ar y pryd, rhwystrau cyfathrebu a'r camau a gymerwyd i fynd i'r afael â nhw
- Dylai gofal amlddisgyblaethol gynnwys dealltwriaeth gyffredin o bryderon, dymuniadau a risg glinigol y fenyw
- Mae diogelwch diwylliannol yn gofyn am gyfathrebu parchus, chwilfrydedd ac uwchgyfeirio amserol pan nad yw cyfathrebu'n ddigonol.